Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 64** **Haf 2023**



**'Y mwyaf dawnus yng nghelfyddyd cerdd'**

# Gennadios

O'n blaenau mae 'haf hirfelyn, tesog' yn llawn o brysurdeb ac o weithgaredd. Cawsom ein gwefreiddio eisoes gan ddoniau ein hieuenctid yn Eisteddfod yr Urdd. A tybed sawl un fydd yn breuddwydio, wrth anelu am y Sioe yn Llanelwedd, am brynu tuniau Brasso i roi sglein ar gwpanau eu llwyddiant wedi'r cystadlu? Neu a fydd y beirdd, cyn clywed am eu llwyddiant gan awdurdodau'r Eisteddfod Genedlaethol, heddiw'n llygadu cornel yn eu cartref i osod cadair eu gorchest, neu efallai'n chwilio am ofod yng nghwpwrdd llestri gorau'r tŷ i gartrefu coron eu dawn?

Peth braf yw gweld gorchest neu gamp yn cael ei hanrhydeddu. A gwyddom y caiff athrawon, hyfforddwyr, rhieni a chyfeillion oll rannu yn llawenydd y llwyddiant y rhai ddaeth i'r brig.

Ar hyd y canrifoedd, mewn diwylliannau gwahanol, gwelwyd yr awydd gan sefydliadau gwleidyddol, ar y maes chwarae neu ym myd celfyddyd, i anrhydeddu llwyddiant pencampwyr, i ddyrchafu talent, dawn neu gyfraniad unigolion.

Yn y darlun ar y clawr gwelwn fedal hynod ac unigryw. Gwydr glas tywyll yw'r cefndir a llun gŵr ifanc o'r enw Gennadios yw'r arwyneb. Darlun ydyw a gafodd ei lunio o aur. Mae'n bur debyg bod Gennadios yn byw yn ninas Alexandria yn yr Aifft rhwng 200 OC ac 300 OC. Crëwyd y fedal i ddathlu ei lwyddiant a'i ddawn gerddorol. Dywed yr arysgrif, 'Gennadios yw'r mwyaf dawnus yng nghelfyddyd cerdd'.

Yng ngwlad 'beirdd a chantorion, / enwogion o fri', fe ddathlwn ninnau hefyd ddawn a chyfraniad ein cyfoedion. I ni, Gymry Cymraeg, braint yn wir fyddai cael ein cydnabod a'n derbyn i'r Orsedd fel rhywun a gyfrannodd i fywyd y genedl mewn ffordd neilltuol.

[*Llun y clawr:*
*o wefan Met, Efrog Newydd, drwy hawl Open Access*]

Nid diniwed, fodd bynnag, mo pob rhestr anrhydeddau!

Derbyniodd Rishi Sunak, y Prif Weinidog yn San Steffan, restr o enwau'r rhai yr oedd y cyn Brif Weinidog Boris Johnson am eu hanrhydeddu. Bu cryn dipyn o ddyfalu a fyddai Mr Sunak yn derbyn yr argymhellion a phwy fyddai'n cael eu hanrhydeddu gan Mr Johnson.

Y mae gwahaniaeth rhwng seren a seren ym myd anrhydeddau gwleidyddol, a phrin y cawn gytundeb, hyd yn oed o fewn i'r un blaid, ynghylch pwy sydd wir yn deilwng i dderbyn anrhydeddau!

O fewn ychydig oriau o gyflwyno'i restr roedd Mr Johnson ei hun hefyd wedi ymddiswyddo, a'r seren wib benfelyn wedi ei chuddio gan gwmwl ei chywilyddio gan benderfyniad Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin.

Er i bobl ddifrïo'n sinigaidd yr ymdrech, addas yw atgoffa'n hunain mai un o freintiau mwyaf bod yn aelod yn Eglwys Iesu Grist yw ein bod, yn wythnosol, gyda'n gilydd, yn cael cydgyfarfod i ganmol dawn a thrugaredd, mawredd grym ac anrhydedd yr unig Un sydd â hawl i bob anrhydedd a chlod.

Sut fedrwn ni honni'r fath beth pan mae ein haelodau'n heneiddio a'n cynulleidfaoedd yn prinhau o wythnos i wythnos? Y gwir syml yw hyn. Bob tro rydym yn cyfarfod; bob tro rydym yn addoli; bob tro rydym yn gweddïo; bob tro rydym yn darllen salm neu'n agor yr Ysgrythurau gyda'n gilydd; bob tro rydym yn canu emyn o fawl, yr ydym yn ymuno ag Eglwys Fawr Iesu Grist o bob cyfandir, ac o bob oes, i'w anrhydeddu.

A phan addolwn Ef, yn symlrwydd ein moliant cawn y fraint o ymuno â mawl holl lu'r nef – yr holl angylion, seraffiaid a saint – i ganmol y crëwr sy'n deilwng o'n mawl, penarglwydd hanes sy'n deilwng o'n clod, a'n prynwr trugarog sy'n haeddu pob anrhydedd.

'Teilwng,' yn wir, 'yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl.'

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 23 Gorffennaf | Oedfa'r ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>yn Seion, Capel Seion, am 10 o'r gloch |
| 3 Medi | Oedfa'r ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel Pen-llwyn am 10 o'r gloch |
| 18 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch |
| 27 Medi | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Blaenannerch a dros Zoom<br>am 1.30 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

Tudalen y Plant – o *Amser Beibl*

# Tudalen y Plant


## Stori 2 Bwydo'r dyrfa



Ydych chi'n hoffi cael picnic neu farbeciw? Mae'n hwyl cael bwyta y tu allan pan fydd y tywydd yn braf.

Dyma i chi stori am bicnic mawr iawn. Roedd llawer o bobl wedi dod i wrando ar Iesu. Roedden nhw wedi bod yno am amser hir ac roedd eisiau bwyd arnyn nhw. Doedd dim siopau na chaffis yn ymyl.

Daeth Andreas, un o ffrindiau Iesu, o hyd i fachgen yn y dyrfa oedd wedi dod â phum torth fach a dau bysgodyn gydag ef. Dim ond digon i'r bachgen ei hunan oedd hyn ond rhoddodd ef y bwyd i Andreas a rhoddodd Andreas ef i Iesu.



**Unwch y dotiau i weld beth oedd yn y fasged ac yna lliwiwch y llun.**

**Pwy ddaeth â'r bwyd at Iesu?**

**A _ _ _ _ _ _**

Dywedodd Iesu wrth y bobl am eistedd ar y llawr. Yna, diolchodd i Dduw am y bwyd. Wedyn dechreuodd ffrindiau Iesu rannu'r bara a'r pysgod. Roedd yno ddigon i bawb. Roedd Iesu'n gallu gwneud digon o fwyd i bawb gan ei fod yn Fab Duw.

## Dod at ein gilydd yng Ngofalaeth y Garn

Ar fore'r Groglith, braf oedd cael dod ynghyd yn Seion, Capel Seion, lle cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad ein Gweinidog. Cymerwyd rhan gan aelodau gwahanol eglwysi'r ofalaeth, a chafwyd datganiad cerddorol hyfryd gan barti Capel Seion. Ar ddiwedd yr oedfa, cafwyd cyfle i gymdeithasu a mwynhau'r lluniaeth yr oedd aelodau Seion wedi'i ddarparu ar ein cyfer.

Y diwrnod hwnnw, sef 7 Ebrill, yr oedd Watcyn a Lowri yn dathlu eu priodas ruddem, ac fe gawsom i gyd ran yn y dathliadau wrth iddynt rannu cacen y dathliad â'r aelodau. Llongyfarchwyd y ddau ar yr achlysur hapus hwn ar ran eglwysi'r ofalaeth gan yr Athro Gruffydd Aled Williams, Ysgrifennydd yr Ofalaeth, a chyflwynwyd tusw o flodau i Watcyn a Lowri gan Celt, un o ieuenctid Seion.

Bore'r Pasg, 9 Ebrill, daeth nifer dda o aelodau eglwysi'r ofalaeth ynghyd, i Gapel y Garn y tro hwn, ar gyfer oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog. Cafwyd neges bwrpasol a pherthnasol ganddo, cyn inni gydgyfranogi o elfennau'r cymun i ddathlu gwyrth yr Atgyfodiad. Yn dilyn y gwasnaeth, cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned yn y festri, ac roedd y sgwrsio a'r gwmnïaeth yn felys yno.

Dydd Sul, 7 Mai, oedd diwrnod Cymanfa Unedig Gogledd Ceredigion. Roedd yn braf gweld nifer dda o blant yn bresennol yng nghyfarfod y bore, a chafwyd orig ddifyr dan arweiniad Evan Williams. Dr Rhidian Griffiths oedd arweinydd Cymanfa'r Oedolion, a chafwyd canu mawl ysbrydoledig dan ei arweiniad deallus, yn ogystal â datganiad gan Barti Camddwr, dan arweiniad Evan. Roedd pawb yn gytûn mai da oedd gallu dod ynghyd i ganu mawl yn y Gymanfa ar ôl bwlch o dair blynedd.

Bore Sul, 14 Mai, ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan arweiniad ein Gweinidog. Cymerwyd rhan gan aelodau'r gwahanol eglwysi a gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.



Watcyn a Lowri gyda'r gacen arbennig i ddathlu eu priodas ruddem, a gyda Celt, a gyflwynodd dusw o flodau iddynt ar yr achlysur hapus





Y Gweinidog yn arwain oedfa’r Groglith yn Seion

Parti canu Seion



## Cydnabod gwasanaeth i'r Weinidogaeth

Mae eglwysi Gofalaeth y Garn wedi'u bendithio'n helaeth gan bresenoldeb gweinidogion sydd wedi cyflawni gwasanaeth oes i'r Weinidogaeth Ordeiniedig yn ein plith. Cafwyd cyfle eisoes i longyfarch y Parch. Elwyn Pryse ar gyflawni 70 mlynedd o bregethu. Ac mae hon yn flwyddyn eithriadol yn ein hanes gan ein bod yn nodi cyfraniad a gwasanaeth tri o wroniaid yn ein plith, sef:

| | |
|---|---|
| 60 mlynedd | Y Parch. Athro John Tudno Williams |
| 40 mlynedd | Y Parch. Ddr R. Watcyn James |
| 25 mlynedd | Y Parch Wyn Rhys Morris. |

Rydym yn ddiolchgar i'r tri ohonynt am eu gweledigaeth, eu hymroddiad a'u gwaith diflino yn cyflwyno'r Efengyl, gan hyrwyddo achos Crist mewn amrywiol ffyrdd yn y fro – ac ymhell y tu hwnt i hynny hefyd.

Dymunwn longyfarch y tri ohonynt ac erfyniwn am bob rhwyddineb iddynt i gyflawni'r gwaith hollbwysig hwn am flynyddoedd eto i ddod.

I nodi eu cyflawniad, bwriedir trefnu digwyddiad i eglwysi'r ofalaeth yn yr hydref. Bydd y manylion yn dilyn yn fuan.

**cymundeb**

Mae yno'n fisol yn gwirfoddoli
ei bâr o ddwylo i barhau'r addoli,`
a throi i rannu fel gwnaeth ei rieni;
ac yn y gwin mae'r groes yn goroesi
a daw'r Un i'r ddau neu dri'n gynhaliaeth,
mae 'na wasanaeth mewn oes o weini.

*Geraint Roberts* (o'r gyfrol *Oriel y Bardd*,
gol. D. Geraint Lewis)




## Sesiwn Wybodaeth Ffrindiau Dementia

Nos Fawrth, 18 Ebrill, croesawyd Mrs Sarah Morris i festri'r Garn i gynnal Sesiwn Wybodaeth Ffrindiau Dementia.

Cyflwynwyd Sarah gan ein Gweinidog, a chafwyd arweiniad defnyddiol ganddi ynghylch sut i fod yn ffrind i rai sy'n byw gyda dementia.

Mae cynllun GOLUD Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cefnogi eglwysi i fod yn wybodus, yn ymarferol, yn gynhwysol a chalonogol i bobl sy'n byw gyda dementia.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun, ewch i:
https://www.ebcpcw.cymru/cy/golud/.
Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol hefyd ar wefan Cymdeithas Alzheimer: https://www.alzheimers.org.uk/

## Capel y Garn

## Gorffennaf

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

2 Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
am 10 o'r gloch

9 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

13 Cymdeithas Lenyddol y Garn

Talwrn y Beirdd – BBC Radio Cymru
Recordio'r rowndiau cyn-derfynol
yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 7 o'r gloch
Mynediad am ddim – croeso cynnes i bawb

16 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

23 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
yn Seion, Capel Seion, am 10 o'r gloch

30 I'w drefnu

**Pererindod Noddfa**

Pnawn Sul, 16 Gorffennaf

Ymweliad ag Abaty Cymer (ger Dolgellau)
Tywysydd – Mrs Nia Rowlands, Y Faner

Teithio yn ein ceir
Gadael Capel Noddfa am 1.30 yp

Darperir te pnawn yn Neuadd Bentref Llanelltyd
gan Eirian, Cil-y-coed
(pris: £16 yr un)

Enwau i Gwynfryn Evans erbyn 30 Mehefin

Llongyfarchiadau calonnog:

i Meleri Jones ar ei swydd newydd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Penweddig;

i Vernon a Dilys Jones ar eu llwyddiannau llenyddol mewn amryw o eisteddfodau,

i'r Parch Judith Morris ar ennill cadair Eisteddfod Llanfachreth a nifer o wobrau llenyddol eraill;

i Glyn a Gill Saunders Jones a theulu Atebol ar ennill Gwobr Tir na n-Og (Cymraeg Cynradd) am y gyfrol *Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor* gan Luned Aaron a Huw Aaron.

## Boreau Coffi

Ers mis Hydref 2023 mae Capel y Garn ynghyd â'r Noddfa, Eglwysi Llangorwen a Llandre, a Phwyllgor Neuadd Rhydypennau wedi cyd-dynnu i gynnig paned a bisged, yn rhad ac am ddim, i bawb o bob oedran ac enwad (neu ddim) bob bore Gwener yn y Neuadd.

Y bwriad oedd rhoi cyfle i gyfarfod mewn lle clyd a chroesawgar am sgwrs a rhannu newyddion gyda chroestoriad o'r gymdeithas sydd heb fod yn rhan o'n cynulleidfaoedd ar y Sul.

Bu'r arbrawf yn llwyddiant, gyda nifer yn troi i mewn yn achlysurol ac eraill yn troi i mewn yn wythnosol – pawb yn gwerthfawrogi'r cyfle am stori, sgwrs a chymdeithasu.

Ni chynhelir y cyfarfodydd yma dros dymor yr haf, ond bwriedir ailgychwyn eto yn yr hydref.

Diolch i bawb fu mor barod i helpu gyda'r fenter hon. Cymaint fu'r gefnogaeth fel na fedrwyd gwneud defnydd o bawb. Gobeithio nad ydych yn rhy siomedig.

Mae'r cydweithio rhwng yr Eglwys yng Nghymru, yr Annibynwyr, y Presbyteriaid a'r Neuadd anenwadol wedi bod yn achos llawenydd ynddo'i hun.

*Eddie Jenkins*

## Capel y Garn

## Awst

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

6 Oedfa dan arweiniad y Fns Beti Griffiths
yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

13 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

20 Oedfa dan arweiniad y Fns Karen Owen
yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

27 Oedfa dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

## Medi

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

3 Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
yng Nghapel Pen-llwyn am 10 o'r gloch

10 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

17 Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
am 10 o'r gloch

18 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

24 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri Rehoboth brynhawn Mawrth, 14 Mawrth. Gillian Olewicz, Llandre, oedd y wraig wadd, a theitl ei sgwrs oedd 'Byw a Gweithio yn y Dwyrain Canol'. Bu Gillian a'r teulu yn byw yn Saudi Arabia yn y Dwyrain Canol am bedair mlynedd ar ddeg, o 1979 hyd 1995, gan fyw yn Jeddah a Riyadh. Yn ystod y prynhawn cawsom hanes eu bywyd prysur yn y wlad honno, yn ogystal â gweld lluniau a ffilmiau a dynnwyd gan y teulu pan oeddent yn byw yno. Hefyd daeth â nifer o greiriau a brynwyd ganddi yn y Dwyrain Canol i'w dangos, ynghyd â mat sidan hyfryd, a'r cyfan yn ei hatgoffa am yr amser a dreuliodd yn y wlad.

Ar ôl iddi ateb nifer o gwestiynau a ofynnwyd iddi gan y chwiorydd, diolchwyd yn gynnes i Gillian am brynhawn difyr, a mwynhawyd paned o de a bisgedi a baratowyd gan Ann Humphreys a Ruth Jenkins.

Cyfarfu'r aelodau yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, brynhawn Mawrth, 11 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Eiriona Metcalfe, a diolchodd am y rhodd hael a dderbyniwyd oddi wrth Eirlys Jones oedd wedi methu mynychu'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.

Dymunwn adferiad buan i Ann Humphreys sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

*Carys Briddon*



Cymdeithas Chwiorydd Rehoboth yn mwynhau te prynhawn yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

## Cyfeillion Cartref Tregerddan

Cynhelir

## Te Prynhawn

yn y Cartref

Dydd Sadwrn, 23 Medi, am 2.30 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb



Bridget Harpwood, Swyddog Codi Arian Elusennau Iechyd Hywel Dda, yn derbyn siec o £!,000 gan Gapel y Garn tuag at Apêl Cemotherapi Ysbyty Bronglais

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

**Talwrn y Beirdd – BBC Radio Cymru**
**Recordio'r rowndiau cyn-derfynol**
**yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre,**
**am 7 o'r gloch**
**Mynediad am ddim –**
**croeso cynnes i bawb**

## Cymdeithas Lenyddol y Garn



I gloi tymor y Gymdeithas eleni, cafwyd cyfarfod arbennig nos Wener, 17 Mawrth, yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Yn ei dull cartrefol a hwyliog, cyflwynodd Mair ganeuon traddodiadol a chyfoes i gyfeiliant ei gitâr a'i thelyn, yn ogystal â dangos dawn y cyfarwydd i gyfareddu cynulleidfa yn adrodd chwedlau. Diolch yn fawr iawn i Mair am gamu i mewn ar y funud olaf – ac am roi clo gwych i weithgareddau'r Gymdeithas.

Cyflwynwyd Mair gan Gadeirydd y Gymdeithas, Llio Penri, a pharatowyd lluniaeth i bawb gan aelodau'r pwyllgor. Cafwyd gair o ddiolch gan y Parch. Watcyn James.

Bydd noson agoriadol tymor nesaf y Gymdeithas Lenyddol nos Wener, 20 Hydref, ac edrychwn ymlaen at noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cyfathrebu Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni!

## ‘Mae gen i freuddwyd …’



Drigain mlynedd yn ôl, ar 28 Awst 1963, yn ystod yr orymdaith enwog i Washington, cyflwynodd Martin Luther King ei araith enwog oedd yn cynnwys y geiriau ‘I have a dream’.

Roedd dros 200,000 o gefnogwyr hawliau sifil yn y dorf, wrth i Martin Luther King ymbil am gydraddoldeb hiliol a diwedd ar wahaniaethu yn yr Unol Daleithiau.

Yn ei araith cyfeiriodd at Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau, gan ddweud: ‘Mae gen i freuddwyd y gwelaf y genedl hon yn codi ryw ddydd i fyw yr hyn a ddywed un o erthyglau ei chyfansoddiad: “Daliwn fod y gwirionedd hwn yn eglur, fod pob dyn yn gydradd”.’

Yn ogystal, mewn darn adnabyddus arall o’r araith mae’n cyfeirio at ei blant: “Mae gen i freuddwyd y bydd fy mhedwar plentyn yn medru byw, ryw ddydd, fel rhan o genedl lle bydd cymeriad yn bwysicach na lliw croen.”

Fe adleisiodd Gwyn Thomas neges King mewn modd ysgytwol yn ei gerdd deledu ‘Cadwynau yn y Meddwl’:

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd pawb yn bobol,
Lle na fydd gormes na nacâd,
Na chas byth mwy dragwyddol.

Ond tybed ydyn ni wedi symud ymlaen o gwbl mewn 60 mlynedd – ac onid ydi geiriau clo’r gerdd yr un mor berthnasol heddiw?

‘Wragedd America, wragedd y byd,
Nac wylwch o’m plegid i,
Eithr wylwch o’ch plegid eich hunain
Ac oblegid eich plant,
Oblegid eich plant,
Oblegid eich plant.’

(Llun: Wikimedia Commons)

# Pen-llwyn



Dydd Sul, 7 Mai, bu rhai aelodau o Gapel Pen-llwyn mewn Cymanfa Ganu yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Yn eu mysg roedd dwy a fu'n ffyddlon iawn i'r ysgol Sul, sef Manon Lewis ac Ela Lewis. Yng nghyfarfod y bore roedd plant o wahanol ysgolion Sul yn yr ardal yn gyfrifol am ledio'r emynau, a'r emyn ar gyfer Manon ac Ela oedd: 'Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu, / meddwl am wlad heb goeden na llwyn'.

Arweinydd cymanfa'r plant oedd Efan Williams, a hawdd deall ei fod yn athro ysgol gynradd gan iddo'u denu o'r dechrau a mynd i mewn i'w byd. Cawsom gymanfa fywiog, hyfryd dan ei arweinyddiaeth, gyda'r Parchedig Gwilym Tudur yng ngofal y rhannau arweiniol ac yn ddiweddarach yn sgwrsio ac annerch y plant.

Arweinydd Cymanfa'r Hwyr oedd Dr Rhidian Griffiths, ac fe gafwyd gwledd yn gwrando arno'n dadansoddi pob emyn a'r canu yn soniarus dros ben. Gan fod Rhidian a'i ddiweddar frawd, Dr Hywel Griffiths, yn disgleirio ym myd emynyddiaeth, roedd gwrando ar Rhidian yn wledd, a gallasem fod wedi eistedd am awr arall yng nghanol y naws ysbrydol yr oedd wedi ei gyfleu.

Y Parchedig Gwilym Tudur, yn ei ffordd gynnes, efengylaidd, oedd llywydd y noson ac estynnodd groeso Seion i bob un. Roedd hon yn gymanfa ganu i'w chofio yn wir, a'r ddishgled a'r croeso ar ol cymanfa'r bore yn dderbyniol gan bob un. Diolch yn fawr.

*Heulwen Lewis*

## Cyfarchion i John
## ar Ddathlu Trigain Mlynedd yn y Weinidogaeth

Yn rheolaidd ar fore Sadwrn fe fydd y pedwar ohonom – John ac Ina, Eirian a minnau – yn cyfarfod dros baned o goffi. Ac fe fyddwn yn gwneud yr hyn mae teuluoedd yn ei wneud: rhoi'r byd yn ei le, holi am y plant ac wrth gwrs yn gynyddol ryfeddu ar gampau ein hwyrion.

Yna, cyn diwedd y sgwrs fe fydda i'n codi'r cwestiwn arferol: ble y'ch chi fory, John? Fe fydd John yn ateb gan esbonio taith y Sul – yng nghapeli Sir Aberteifi, ar alwad ymhellach i'r de neu'r gogledd, neu'r tu hwnt i Glawdd Offa. Pan oedd hi byw, fe fyddai Mam yn gofyn yr union gwestiwn, a John yn ateb, er enghraifft – Birmingham yn y bore, Coventry prynhawn a 'nôl i Birmingham i oedfa'r hwyr.

Yn ystod un o'r sgyrsiau dwi'n cofio holi: chi ddim yn blino, John? Mam atebodd, ac mae ei hateb wedi  aros gyda ni fel teulu ac wedi aros fel un o'i gwirioneddau chwedlonol – dyw John **byth** yn blino!

A dros drigain mlynedd **dyw** John ddim wedi blino. Yn gyntaf, mae'r gosodiad yn llythrennol wir. Wrth lunio'r geiriau hyn fe fues i'n gwneud ychydig o syms: mae trigain mlynedd yn cwmpasu dros dair mil o Suliau – pregethu ddwy waith y Sul, dyna chwe mil o bregethau (iawn, derbyn y bu yna rywfaint o ailadrodd!!). Mynd i gyhoeddiad o Sul i Sul – o gapeli mawr y ddinas i addoldai bychan, diarffordd – mynd lle fyddai yna gynulleidfa gref a mynd i oedfa gyda dim ond dwsin wedi dod ynghyd. Mynd mewn haul, glaw ac eira, ac ar draws penwythnos, yr union adeg i ymlacio a chael seibiant rhag pwysau'r gwaith. Mynd a dal i fynd, heb flino.

Yn ail, dyw John heb flino **ar ddehongli ac esbonio'r gair**. Fe soniais eiliad yn ôl am ailddefnyddio pregeth, ond yn amlwg fyddai pregeth ddoe ddim yn siwtio heddiw. Os oes un ffactor yn nodweddu pregethau John – ffactor cyfoesedd yw honno.

Dros y blynyddoedd dwi wedi gwrando ar John yn traethu ar athroniaeth Richard Dawkins yn ei lyfr *The God Delusion* a hefyd ar brotest 2012 gan y mudiad Occupy tu allan i gadeirlan St Paul's. Prif blacard a phrif gwestiwn y brotest oedd – '*what would Jesus do?'* Gyda'i ddysg a'i feddwl craff, pregethodd John yn rymus ar y ddau destun – gan ddangos perthnasedd yr efengyl.



John yn cael ei longyfarch gan Cliff Williams, Llywydd Sasiwn y De

Yn drydydd ac yn bwysicaf, dyw John ddim wedi blino **ar y Gair**. Ewch 'nôl drigain mlynedd i 1963 a meddwl am yr holl newidiadau a datblygiadau – rhai er gwell a llawer er gwaeth. Meddyliwch am y newidiadau ym myd technoleg – cyfrifiaduron, e-byst a'r cyson bresennol ffonau symudol. Yn y fflyd o newidiadau mae 'na rai pethau sy'n oesol, yn aros yr un fath ac i ni, fel Cristnogion, cywirdeb a nerth y Gair – boed hwnnw'n ysgrifenedig, argraffedig neu'n electronig – nerth y Gair yw'r sylfaen ddigyfnewid. Ac mae'n eglur ar adeg o ddathlu a llongyfarch nad yw John wedi blino ar y Gair a'i fod yn ymgorfforiad o gyngor Paul yn ei epistol at y Rhufeiniaid:

> Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os athro wyt, arfer dy ddawn i addysgu, os pregethwr wyt, i bregethu.

Fel y gwyddom yn dda, mae'r doniau eraill ganddo, ond yn bennaf gadewch i ni gofio a diolch am ddawn John i bregethu a chyhoeddi'r Gair yn ddiflino dros drigain mlynedd.

*Geraint Evans*

## Cyfarfod â'r Parch. Riwphona Mawblei


Mae'n siŵr fod nifer ohonoch yn cofio cyfarfod â'r Parch. Riewphona Mawblei o dalaith Meghalaya, Gogledd-ddwyrain India, pan dreuliodd gyfnod yn astudio am radd MTh yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ddechrau'r nawdegau. Cawsom ei gwmni yn y Garn ar sawl achlysur, a gwelwyd llun ohono gyda phlant ysgol Sul y Garn yn dilyn eu gwasanaeth Nadolig 1992 yn *Y Tincer*, Ionawr 2023.



Yn ystod eu hymweliad â Gogledd-ddwyrain India ym mis Mawrth, fe fu i'r Parch. Huw a Nan Powell-Davies gyfarfod â Riewphona a'i frawd, y Parch. S. L. Mawblei, sydd hefyd yn weinidog yn Synod Sepgni o Gymanfa Khasi-Jaintia.

Yn y llun, gwelir Huw a Nan gyda'r ddau frawd (Riewphona sydd ar y dde), a dyma ddywed Huw:

> Dyma lun ohonom yng ngwasanaeth un o'r Synodau heddiw, gyda'r Parch. G. R. Mawblei oedd wedi dod draw yno i Lengkhoi, rhyw awr a hanner o Shillong. Cawsom becyn ac ambell lyfr ganddo o'i eiddo. Mae'n cadw'n rhyfeddol er iddo gael strôc yn 2008 a methu siarad am yn hir wedyn. Mae wedi dod yn rhyfeddol mewn gwirionedd. Ddaru ni gyfarfod ei frawd yn Swyddfa'r Synod Sepgni ac yntau wedyn yn gwahodd ei frawd i ddod i'n cyfarfod.
>
> Mae'n cofio'n annwyl iawn at bawb yn y cylch acw ers pan oedd o yn aros yn y Coleg Diwinyddol ym 1993.




Yn dilyn ei salwch, bu Riewphona yn brysur yn ysgrifennu llyfrau a chyhoeddodd gyfrol swmpus dan y teitl *Christian Doctrine of Salvation,* yn ogystal â chyfrol yn yr iaith Khasi yn rhoi hanes ei gyfnod yng Nghymru. Ar glawr blaen y gyfrol ceir llun o'r Coleg Diwinyddol ac ymysg y lluniau ar y clawr cefn mae un o blant ysgol Sul y Garn.

Diolch i Huw a Nan am adnewyddu'r cysylltiad ac am gyfleu cyfarchion Riewphona i ninnau – da clywed ei fod wedi gwella cystal a'i fod yn dal i lafurio yng ngwaith y Deyrnas.



Cristnogaeth 21

# ‘duw’, Pantycelyn a Dyfodol Crefydd

Ymgom rhwng

**Aled Jones Williams a Cynog Dafis**

ynghylch eu dwy gyfrol:

*Cerddaf o’r Hen Fapiau* (AJW)

*Pantycelyn a’n Picil ni Heddiw* (CD)

**Eisteddfod Genedlaethol 2023.**
**Stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**
**2.00yp, Dydd Gwener, 11eg Awst 2023.**

Bydd **Pryderi Llwyd Jones** (Cristnogaeth 21)
yn hwyluso’r ymgom.

Mae Cristnogaeth 21 Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1011618
www.cristnogaeth21.cymru

**Swyddogion yr Ofalaeth**
Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Medi** i’r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com